



## **Gofalwyr a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Astudiaeth Achos 1**

### **Paul**

Mae Paul yn 46 ac mae wedi gofalu am ei wraig ers iddi fynd yn anabl yn sgil damwain car. Bu rhaid iddo roi'r gorau i'w swydd fel hedddwas i ofalu amdani a magu eu dau fab ifanc.

Mae un o'r meibion bellach yn gweithio ac mae'r llall yn mynychu coleg lleol. Mae Paul yn awyddus iawn i ddychwelyd i weithio, ac yn ogystal â gofidio ynglŷn â symud o fyw ar fudd-daliadau yn ôl i fyd gwaith, mae hefyd yn sylweddoli y bydd rhaid iddo ail-hyfforddi.

Mae hefyd yn bryderus ynglŷn â sut fydd Nancy'n ymdopi yn ei bywyd bob dydd pan na fydd e o amgylch.

Sut fydddech chi'n cynnig cymorth i Paul a Nancy?

## **Gofalwyr a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Astudiaeth Achos 2**

### **Margaret**

Mae Margaret yn gofalu am ei mam, Joan, sy'n 93 oed ac yn dioddef o ddementia. Hefyd credir iddi ddioddef dwy strôc ysgafn yn ddiweddar.

Gadawodd Margaret a'i gŵr John eu llety ar rent i fyw gyda Joan chwe mis yn ôl, pan ddaeth yn amlwg na allai bellach ofalu amdani ei hun. Mae Margaret yn gweithio llawn-amser yn y siop leol.

Mae Joan angen gofal gydol y dydd a'r nos. Mae Margaret yn ei chael yn fwyfwy anodd ymdopi â gofynion darparu'r gofal yma, ac mae ei mam yn gwrthod caniatáu i John wneud unrhyw beth drosti.

Mae Margaret hefyd yn ei chael yn anodd iawn ymdopi â symptomau ei mam. Mae Joan weithiau'n anghofio mai ei merch hi yw Margaret ac mae'n gas wrthi hi a John.

Sut allech chi helpu Margaret?



## **Gofalwyr a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Astudiaeth Achos 3**

### **Bethan**

Mae Bethan yn 83 oed ac mae'n gofalu am ei mab Evan sy'n 45 ac sydd ag anabledd dysgu dwys. Mae Bethan yn mynd yn fwyfwy egwan ac mae hi bellach yn ei chael yn anodd ymdopi â thasgau bob ddydd.

Mae Evan yn mynychu canolfan dydd bum diwrnod yr wythnos lle mae'n helpu i baratoi prydau bwyd yn y gegin. Mae'n mwynhau'r gwaith ac mae Bethan yn mwynhau'r seibiant o'i chyfrifoldebau gofalu; heb hyn ni fyddai'n gallu dal ati â'i rôl gofalu.

Mae Bethan yn gofidio am y dyfodol; mae hi am barhau i ofalu am Evan, ond erbyn hyn mae'n ei chael yn anodd ac mae hi angen help. Mae hi hefyd yn gofidio ynglŷn â beth fydd yn digwydd i Evan pan fydd hi'n marw.

Sut allwch chi helpu Bethan ac Evan?

## **Gofalwyr a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Astudiaeth Achos 4**

### **Elizabeth**

Mae Elizabeth yn rhiant sengl i efeilliaid 10 oed. Mae Matthew yn awtistig ac mae ganddo broblemau ymddygiad. Nid yw'n ymddangos fod gan ei chwaer Rachel unrhyw anableddau. Gadawodd tad y plant pan oedd Matthew yn bedair oed. Er ei fod yn gweld Rachel, ni all ymdopi â Matthew, ac mae wedi torri pob cysylltiad ag ef.

Mae Elizabeth yn mynd yn fwyfwy blinedig ac mae'n methu ymdopi. Mae Matthew yn bwrw ei ben yn y nos ac mae hyn yn cadw'r teulu'n effro. Nid ydynt wedi cael noson gyflawn o gwsg ers y dechreuodd yr ymddygiad hwn dair blynedd a hanner yn ôl. Mae'r cymdogion hefyd wedi bod yn cwyno am y sŵn yn sgil Matthew yn bwrw ei ben.

Mae gwaith ysgol Rachel yn dechrau dioddef oherwydd ei bod hi'n gorflino; mae Elizabeth wedi cyrraedd pen ei thennyn ac mae angen help arni.

Sut allwch chi helpu Elizabeth a Rachel?